Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru



Papur briffio tystiolaeth

# Brexit a Chymru

Mae'r papur briffio tystiolaeth hwn yn crynhoi rhai o'r heriau a'r cyfleoedd allweddol a gyflwynwyd yn sgil ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE); ac yn myfyrio ar sut y gall Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r papur yn canolbwyntio'n benodol ar ein hymchwil ar oblygiadau Brexit i'r economi, ymfudo, ac amaethyddiaeth a physgodfeydd.

www.wcpp.org.uk

# Prif negeseuon

1 **Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymadawiad y DU o'r UE yn gwaethygu'r rhagolygon ar gyfer economi Cymru yn sylweddol.** Bydd yn lleihau allbwn economaidd Cymru, yn gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol, ac yn rhwystro gwariant cyhoeddus oherwydd derbyniadau treth is a cholli cyllid strwythurol yr UE.

---

2 **Mae sectorau sy'n dibynnu'n benodol ar fasnach gyda'r UE** yn crybwyll pryderon allweddol fel diffyg parodrwydd, rhwystrau di-dariff, heriau sy'n gysylltiedig â rheolau tarddiad, a buddsoddiad gostyngol.

---

3 **Arwain a chefnogi busnesau yn ariannol i ddelio â'r heriau byrdymor,** wrth fuddsoddi mewn ailsgilio, ynghyd â blaenoriaethu buddsoddiad Ymchwil a Datblygu a thechnoleg yn yr hirdymor, yw'r prif ymatebion polisi a argymhellir.

---

4 **Gallai gostyngiad yn nifer yr ymfudwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd** arwain at ostyngiad ym maint cyffredinol y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru.

---

5 **Bydd gostyngiad mewn ymfudo yn effeithio ar sectorau allweddol marchnad lafur Cymru,** gan gynnwys gweithgynhyrchu, addysg uwch, twristiaeth a lletygarwch, diwylliant a'r celfyddydau, ac iechyd a gofal cymdeithasol.

---

6 **Bydd y Fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal newydd yn lliniaru'r effeithiau ar GIG Cymru**, a fydd yn gallu llogi gwladolion nad ydynt o'r DU ar gyfer y mwyafrif o rolau. Fodd bynnag, mae'n annigonol ar gyfer gofal cymdeithasol, lle bydd llai o rolau'n gymwys. Gallai hyn waethygu'r heriau gweithlu presennol ar gyfer y sector hwn, gan gynnwys anawsterau'n recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol.

---

7 **Bydd newidiadau mewn amodau masnachu yn rhoi amaethyddiaeth Cymru dan anfantais** o gymharu â'i phrif gystadleuwyr. Bydd ffermwyr defaid a chig eidion yn cael eu taro'n arbennig o galed.

---

8 **Mae'r enillion cwota ar gyfer pysgodfeydd Cymru yn debygol o fod yn fach iawn**. Fodd bynnag, mae'r ffocws cynyddol ar bolisi pysgodfeydd yn cynnig cyfleoedd i ailfeddwl sut y gellir dylunio a rheoli'r system orau er budd yr economi a chymunedau.

---

9 **Mae'r broses Brexit wedi tynnu sylw at y cyfyngiadau yng ngallu Cymru i ddylanwadu ar bolisi llywodraeth y DU.** Efallai y bydd gan hyn oblygiadau i lwybr datganoli yn y dyfodol.

# Cyd-destun

Yn refferendwm 2016 pleidleisiodd Cymru i adael yr UE, gyda 52.5% o blaid Brexit. Roedd arolygon a gynhaliwyd cyn y refferendwm yn awgrymu mai Cymru oedd â'r lefel uchaf o gefnogaeth ymhlith cenhedloedd y DU ar gyfer gadael yr UE, a barn hirsefydlog y dylid lleihau mewnfudo, er bod ganddi un o'r cyfrannau isaf o fewnfudwyr.

Felly ni ddylai'r canlyniad hwn fod wedi bod yn syndod. Fodd bynnag, dangosodd ymgyrch y refferendwm a dadleuon dilynol am y 'cytundeb ysgariad' a'r fargen fasnach mai prin oedd y ddealltwriaeth o'r materion allweddol. Mae hyn wedi tynnu sylw at yr angen i lunwyr polisi fyfyrio ar sut mae polisi'n cael ei ddehongli a'i ddeall gan y cyhoedd. Yn ddiddorol serch hynny, yn y blynyddoedd ers y refferendwm ymddengys bod agweddau at fewnfudo wedi meddalu. Roedd data pleidleisio Cymru'n awgrymu bod dod â'r rhyddid i symud i ben, tra'n cynnal masnach rydd, yn flaenoriaethau ym mhenderfyniadau pleidleiswyr; ac nad oedd sinigiaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau'r UE yn berthnasol i fesurau unigol poblogaidd, megis rheoliadau crwydro ffonau symudol yr UE, ac iawndal cwmnïau hedfan.

> **Mae Brexit wedi dangos y cyfyngiadau yng ngallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisïau llywodraeth y DU, ac mae wedi creu ansefydlogrwydd pellach yn system wleidyddol Cymru**

Mae'r broses ddatganoli yng Nghymru wedi bod yn raddol ac yn gynyddrannol, a bu tensiynau rhwng llywodraethau Cymru a'r DU. Mae Brexit wedi dangos y cyfyngiadau yng ngallu Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisïau llywodraeth y DU, ac mae wedi creu ansefydlogrwydd pellach yn system wleidyddol Cymru. Mae anghytundebau ynghylch Bil Marchnad Fewnol y DU - sy'n ceisio cynnal masnach ar draws cenhedloedd y DU ond sydd â'r potensial i danseilio cyfrifoldebau polisi'r Senedd - yn un enghraifft amlwg o natur ddadleuol y cysylltiadau rhyng-lywodraethol. Mae'r arwyddion bod Llywodraeth y DU yn ffafrio ailganoli'r pwerau a gafwyd o ganlyniad i adael yr UE, yn hytrach na datganoli'r pwerau hynny i Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr, wedi ychwanegu at y tensiynau.

# Goblygiadau economaidd Brexit



Mae economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n fawr i economi'r DU. Felly mae effeithiau gadael yr UE yn debygol o gael eu teimlo'n gyfartal ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, gyda goblygiadau i incwm a chyfoeth, yn ogystal â phob agwedd ar bolisi economaidd a chymdeithasol.

Hyd yn oed cyn i newidiadau sy'n gysylltiedig â Brexit ddechrau dod i rym, arweiniodd chwyddiant at brisiau defnyddwyr uwch ar gyfer eitemau hanfodol. Gyda'r fargen fasnach bellach wedi'i chwblhau, mae'n debygol y bydd canlyniadau uniongyrchol i incwm a phrisiau defnyddwyr, a bydd refeniw treth is dilynol yn ergyd bellach i incwm.

Bydd effeithiau Brexit yn effeithio ar economi Cymru gyfan. Er y bydd y cysylltiadau masnachu newydd yn taro rhai sectorau yn galetach nag eraill, nid yw Brexit yn sioc sector-benodol. Felly, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried y ffactorau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar bob busnes ac aelwyd.

## Gall polisïau cyhoeddus annog arallgyfeirio, arloesi ac ailsgilio

**Mae gwytnwch yr economi yn dibynnu ar ffactorau strwythurol yn ogystal â ffactorau lefel cwmni**. Ar ôl Brexit a'r pandemig bydd cyfle i osod rhai sylfeini strwythurol newydd, er mwyn sicrhau bod gan Gymru sylfaen ddiwydiannol fwy amrywiol a rhyng-gysylltiedig; gweithlu medrus; mwy o ffocws ar allforio; a lefelau uchel o arloesi. Ar lefel cwmni, mae'r cwmnïau deinamig sy'n cystadlu ar ansawdd yn hytrach na chost, sydd â chysylltiadau cymunedol cryf, ac sy'n gallu addasu ac arloesi, yn fwy tebygol o oroesi a thyfu. Gall polisïau cyhoeddus annog arallgyfeirio, arloesi ac ailsgilio; ac maent hyd yn oed yn bwysicach yng nghyd-destun sioc economaidd ddeuol a chydamserol pandemig y Coronafeirws a Brexit.

Bydd y gallu hwn i addasu hefyd yn hanfodol i aelwydydd. Mae unigolion a grwpiau sydd eisoes dan anfantais yn y farchnad lafur yn llai abl i addasu i sioc economaidd: mae ganddynt lefelau is o arbedion, lefelau uwch o ddyled, a llai o allu i symud neu ailhyfforddi. Mae angen dybryd i gefnogi'r rheini sydd dan anfantais economaidd, trwy ddarpariaeth lles a sgiliau a hyfforddiant.

Lle mae effeithiau sectoraidd o ganlyniad i Brexit, mae yna rai themâu cyffredin. Mae **parodrwydd** yn fater allweddol, gyda llawer o sectorau'n teimlo'n llai parod ar gyfer y pontio hwn nag yr oeddent ar gyfer terfynau amser blaenorol Brexit. Mae hyn oherwydd cyfuniad o effaith pandemig y Coronafeirws ac ymdeimlad o 'flinder Brexit' yn sgil y profiad o baratoi ar gyfer y cyfnodau pontio blaenorol. Er y bydd tariffau yn broblem i rai busnesau, mae disgwyl i rwystrau di-dariff (fel oedi ar y ffin ac ardystio tollau) gael effaith fwy. Bydd y rhain yn fwy o broblem i fusnesau y gallai eu cynnyrch ffres ddifetha.

**Mae rheolau tarddiad yn caniatáu i gynhyrchion gael eu hallforio heb dariffau os cânt eu cynhyrchu yn y DU yn bennaf**. Bydd cydymffurfio â'r rheolau yn her mewn sectorau fel gweithgynhyrchu ceir, lle mae cynhyrchion yn cynnwys sawl cydran sy'n dod o wahanol wledydd. Gallai hyn gael effaith fawr ar elw a gallu cwmnïau i allforio, er nad yw llawer o gwmnïau wedi asesu'r goblygiadau cost eto. Mae dirywiad mewn buddsoddiad yn bryder i'r mwyafrif o sectorau, ac yn enwedig i'r rheini sydd â niferoedd mawr o fusnesau llai sydd wedi elwa o arian yr UE yn y gorffennol - yn bennaf amaethyddiaeth a thwristiaeth.

**Bydd ergyd arall yn y rhannau hynny o Gymru yr effeithir arnynt gan golli cyllid strwythurol yr UE**. Rhwng 2014 a 2020, cafodd Cymru bron i £2bn o gymorth drwy gronfeydd strwythurol yr UE, gyda'r mwyafrif yn mynd i Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Defnyddiwyd yr arian hwn ar gyfer amrywiaeth o fuddsoddiadau gyda'r bwriad o wneud y rhanbarthau yn fwy cystadleuol, gan gynnwys gwella sgiliau, cefnogi busnesau, a gwella trafnidiaeth a chysylltedd. Cefnogwyd rhai cynlluniau proffil uchel, fel Metro De Cymru. Gallai Brexit gael effaith sylweddol ar brosiectau a gynlluniwyd a chymorth hirdymor i gymunedau difreintiedig.

Ymhlith yr heriau, mae rhai cyfleoedd posib a allai godi. Er gwaethaf yr anawsterau sydd wedi dod i'r amlwg ers diwedd y cyfnod pontio, **gallai amaethyddiaeth a physgodfeydd elwa o fargeinion masnach newydd**. Efallai y bydd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio pwerau cymorth gwladwriaethol i helpu i dyfu busnesau Cymru ac i ddod â chynhyrchion arloesol i'r farchnad trwy ganiatáu buddsoddiad ar bob lefel o'r cylch datblygu cynnyrch.

**Mae ein hymchwil yn argymell** bod Llywodraeth Cymru'n tywys busnesau trwy'r rheoliadau newydd; yn annog ailhyfforddi a chreu swyddi yn y sector tollau i ateb y galw cynyddol; yn cynnal cyllid brys ar gyfer sectorau y mae oedi ar y ffin yn effeithio arnynt; ac yn monitro'r effeithiau ar borthladdoedd Cymru yn barhaus.

# Mudo




Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu terfynu'r rhyddid i symud i'r DU o wledydd yr UE. Bydd gan y Bil Mewnfudo arfaethedig oblygiadau sylweddol i economi, cymdeithas a phoblogaeth Cymru.

**Mae tua 80,000 o wladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yng Nghymru**, y mae pob un ohonynt wedi cael preswylfa barhaol. Fodd bynnag, bydd gostyngiad mewn mudo o'r AEE yn y dyfodol yn effeithio ar farchnad lafur Cymru. Mae Cymru wedi bod yn fwy dibynnol ar fudo o'r tu allan i'r DU i dyfu ei phoblogaeth o oedran gweithio na llawer o rannau eraill o Loegr.

Bydd Brexit yn cael yr effaith fwyaf ar sectorau sydd ar hyn o bryd yn cyflogi niferoedd sylweddol o ymfudwyr o'r AEE sy'n cael eu talu llai na £25,600 y flwyddyn - y trothwy cyflog y mae Llywodraeth y DU wedi'i nodi ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod i'r DU i weithio. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu, addysg uwch, twristiaeth a lletygarwch, diwylliant a'r celfyddydau, iechyd a gofal cymdeithasol.

**Bydd yr effeithiau ar GIG Cymru yn cael eu lliniaru gan Fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal newydd**, sy'n golygu y bydd y trothwy cyflog yn cael ei osod ar raddfa gyflog briodol y GIG ar gyfer rhai galwedigaethau, a bydd yn galluogi'r GIG i logi gwladolion nad ydynt o'r DU.

**Mae'r goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn fwy difrifol. Bydd llai o rolau'n gymwys ar gyfer y Fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal, neu'r Fisa Gweithiwr Medrus, a gallai hyn waethygu'r heriau presennol yn recriwtio a chadw staff**

O gymharu â'r system bresennol o ryddid i symud, bydd yn haws (ac yn rhatach) i wladolion nad ydynt o'r UE weithio yn GIG Cymru, ond yn llawer anoddach ac yn ddrytach i wladolion yr UE. Bydd y mwyafrif o rolau o fewn GIG Cymru yn gymwys ar gyfer naill ai Fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal neu Fisa Gweithiwr Medrus, felly mae'n debygol y bydd yr effeithiau cyffredinol yn fach.

**Mae'r goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol yn debygol o fod yn fwy difrifol**. Bydd llai o rolau'n gymwys ar gyfer y Fisa Gweithiwr Iechyd a Gofal, neu'r Fisa Gweithiwr Medrus, a gallai hyn waethygu'r heriau presennol yn recriwtio a chadw staff. O ystyried pwysigrwydd darpariaeth gofal cymdeithasol i'r GIG a'r awydd am system iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Nghymru, bydd y sector yn fwy agored i niwed o ganlyniad i adael yr UE.

Yn ogystal ag amrywio yn ôl sector, **bydd polisi mudo ôl-Brexit Llywodraeth y DU yn cael effeithiau gwahanol ar weithwyr amser llawn a rhan-amser, yn ôl rhyw, ac mewn gwahanol rannau o Gymru**.

Mae hyn gan fod y trothwy cyflog yn eithrio swyddi mewn sectorau cyflog is sy'n cael eu llenwi'n fwy cyffredin gan weithwyr rhan-amser, gan fenywod, ac mewn rhannau o Gymru sydd â chyflogau is na'r cyfartaledd.
Gallai gostyngiad yn nifer yr ymfudwyr o'r AEE arwain at ostyngiad ym maint cyffredinol y boblogaeth o oedran gweithio yng Nghymru. Byddai hyn yn golygu y byddai nifer llai o weithwyr ar gael i gefnogi'r nifer cynyddol o bobl o oedran pensiynadwy, a allai fod yn her benodol mewn ardaloedd gwledig sydd eisoes â phoblogaethau sy'n heneiddio.

**Mae ein hymchwil yn argymell** bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sefydlu grŵp arbenigol (tebyg i'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Ymfudo a Phoblogaeth yn yr Alban) i gynghori gweinidogion ar sut i wneud i'r polisïau mudo newydd weithio mor effeithiol â phosibl i'r economi a chyflogwyr yng Nghymru. Dylai hefyd barhau i ddadlau'r achos i Lywodraeth y DU dros bolisïau sy'n adlewyrchu nodweddion marchnad lafur Cymru. Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ystyried ffyrdd o sicrhau bod Cymru yn cael ei hystyried yn gyrchfan sy'n croesawu ymfudwyr. Er enghraifft, trwy ddatblygu strategaeth integreiddio a mentrau i gefnogi cymunedau gwledig sydd â phoblogaethau o oedran gweithio sy'n dirywio.

# Amaethyddiaeth a physgodfeydd




Rydym wedi cynnal corff o ymchwil ar oblygiadau Brexit i amaethyddiaeth a physgodfeydd yng Nghymru. Mae gan y meysydd polisi hyn nid yn unig oblygiadau economaidd ond maent hefyd yn gwneud cyfraniadau pwysig at gynnal gwead cymdeithasol llawer o gymunedau Cymru.

> **Bydd ffermwyr defaid a chig eidion yn cael eu taro'n arbennig o galed, ac mae'n debygol y bydd dirywiad yn yr ymarferoldeb economaidd o gynhyrchu defaid**

**Bydd newidiadau mewn amodau masnachu yn rhoi amaethyddiaeth Cymru** dan anfantais o gymharu â'i phrif gystadleuwyr masnachu. Bydd ffermwyr defaid a chig eidion yn cael eu taro'n arbennig o galed, ac mae'n debygol y bydd dirywiad yn yr ymarferoldeb economaidd o gynhyrchu defaid. Efallai y bydd ffermydd llaeth, garddwriaethol a chymysg mewn sefyllfa well i elwa o Brexit. O ystyried y ddadl hirsefydlog yn San Steffan ynghylch taliadau fferm, mae lefelau cyllid cyhoeddus y DU ar gyfer amaethyddiaeth yn debygol o ostwng. Byddai hyn yn effeithio'n benodol ar Ogledd a Gorllewin Cymru.

**Bydd sut mae cynhyrchwyr a phroseswyr bwyd a choedwigaeth yn ymateb i Brexit yn hollbwysig.** Bydd cefnogi ffermwyr mewn ffyrdd newydd yn bwysig, nid yn unig ar gyfer y canlyniadau economaidd a chymdeithasol, ond hefyd ar gyfer rheoli tir ac adnoddau naturiol. Mae ffermwyr yn rheolwyr tir sy'n cynnig budd amgylcheddol. Felly, gallai unrhyw ganlyniadau niweidiol i Brexit mewn perthynas â'r gefnogaeth a gânt arwain at ganlyniadau amgylcheddol, yn ogystal ag economaidd.

Yn 2018, gwnaethom ddadansoddi 'cyfleoedd pysgota' - y term a ddefnyddir ar gyfer trwyddedau pysgota, cwotâu a breintiau mynediad eraill. Gwelsom fod cyfran Cymru o gwota pysgota'r DU yn llai nag un y cant. Felly, **gallai'r enillion i'r diwydiant pysgota yng Nghymru yn sgil Brexit fod yn gyfyngedig iawn,** oni bai bod dyraniad cyfleoedd pysgota yn y DU yn cael ei ddiwygio ochr yn ochr â chytundebau pysgodfeydd newydd a luniwyd rhwng y DU a'r UE.

Nid yw hyn yn ystyried yr heriau pontio cyfredol ar gyfer y diwydiant pysgota, y mae angen eu datrys yn gyflym.

Gwnaethom gynnig opsiynau polisi i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a roddir gan Brexit mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O dan y trefniadau cyfredol, nid yw llawer o rywogaethau sy'n cael eu dal yng Nghymru (pysgod cregyn yn benodol) yn cael eu rheoli trwy derfynau cwota'r UE ar faint y gellir eu dal, ond trwy gyfyngiadau ar ymdrech (e.e. terfynau pot, carthu cregyn bylchog). Gallai Llywodraeth Cymru osod cymhelliannau ar gyfer gwahanol arferion pysgota i newid y ddalfa, i gefnogi economïau lleol yn well, i ystyried newidiadau i systemau'r farchnad, ac i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r sector.

# Awduron yr adroddiad

Mae Dr Craig Johnson yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae Dr Helen Tilley yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

**Gallwch ddarllen ein holl waith ar Brexit yma.**



# Amdanom ni

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at a defnyddio tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae gofyn cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol i'r Llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr ar lefel genedlaethol a lleol i ddatblygu syniadau o'r newydd am sut i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sy'n wynebu Cymru.

Mae gwaith y Ganolfan yn cwmpasu ystod eang o bolisïau, ond ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
- Iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- Llywodraethu a gweithredu effeithiol
- Hyrwyddo cydraddoldeb
- Economi a sgiliau
- Plant sy'n derbyn gofal

I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho ein hadroddiadau a'n sesiynau briffio polisi ar y pynciau hyn a phynciau eraill, ewch i www.wcpp.org.uk.

---

**Wales Centre for Public Policy**
**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd CF10 3BG

www.wcpp.org.uk
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
UK RI Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru / Welsh Government